

Prosesu Geiriau (Lefel 1) - 03946 Gwanwyn 2009

Llwyddodd pob ymgeisydd i gwblhau'r papur arholiad. Roedd y safon yn dda iawn gydag ôl ymgeiswyr yn prawf-ddarllen eu gwaith yn drwyadl a gofalus. Cosbwyd yn bennaf am ambell wall teipio yn unig.

Dogfen 1: Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda. Llwyddodd pob ymgeisydd i newid yr ymyl chwith yn gywir ac i ddefnyddio ymylon wedi'u hunioni. Llwyddodd pob ymgeisydd i fewnleoli'r paragraff yn ôl y cyfarwyddyd ac i roi enw'r ffeil a'r llwybr yn awtomatig yn y troedyn. Fodd bynnag, ni lwyddodd ambell ymgeisydd i gyfri'r geiriau'n gywir (2.3) ac roedd ambell ymgeisydd heb nodi cyfri'r geiriau o gwbl ar waelod y ddogfen (2.3). Llwyddodd pob ymgeisydd i symud y testun i'r man cywir ac i ddefnyddio gofod dwbl yn ôl y cyfarwyddyd.

Dogfen 2: Cwblhawyd y ddogfen hon yn arbennig o dda. Llwyddodd pob ymgeisydd i ganoli'r pennawd ac i drawsosod y paragraffau. Bu pawb yn llwyddiannus wrth fewnosod y llun a rhoi border i'r dudalen gyfan. Pwysleisiwyd a thanlinellwyd yn ôl y gofyn. Cosbwyd gwallau teipio yn unig yn y ddogfen hon.

Dogfen 3: Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gwblhau'r ddogfen hon yn dda. Fe wnaeth pob ymgeisydd newid trefn colofnau'r tabl yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, fe gosbwyd ambell ymgeisydd am adael llinell wag ar ôl penawdau'r tabl er iddynt ddewis llinellu'r tabl. Roedd hyn yn gadael un rhes wag o 3 cell ac fe gosbwyd hyn o dan 4L. Dewisodd ambell ymgeisydd arall llinellu'r tabl ond nid oeddent wedi caniatáu llinell wag ar ôl penawdau'r colofnau – mae hyn yn dderbyniol os ydynt yn llinellu'r tabl. (Gweler 4B a 4L.)

Dogfen 4: Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda iawn. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio.

All candidates succeeded in completing this examination paper. The standard was very good with evidence of candidates proofreading their work thoroughly and carefully. On the whole, errors were incurred mainly for typing mistakes.

Document 1: This document was completed well. All candidates changed the left margin correctly and used full justification. All candidates managed to correctly inset the paragraph according to the instruction and to include the filename and path automatically in the footer. However, some candidates did not succeed in completing the word count correctly (2.3) and some candidates did not include the word count at all at the end of the document (2.3). All candidates managed to move the text to the correct location and to use double line spacing according to the instruction.

Document 2: This document was completed very well. All candidates succeeded in centring the heading and transposing the paragraphs vertically. All candidates managed to correctly insert a picture and to include a full page border. Emphasis and underlining were applied according to the task requirements. Keying in errors only were penalised in this document.

Document 3: The majority of candidates succeeded in completing this document well. All candidates changed the order of the column headings according to the instruction. However, some candidates were penalised for allowing a blank row after the column headings even though they chose to rule the table. This resulted in a row of 3 empty cells and this was penalised under 4L. Other candidates chose to rule the table but did not allow a blank row of cells following the column headings - this is acceptable and not penalised. (See 4B and 4L.)

Document 4: This document was completed very well. Errors were incurred mainly for typing mistakes.